YR YMOFYNNYDD

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Rhyddid
Gwirionedd · Cariad

Cynnwys

"DOS I'TH YSTAFELL."
NODIADAU'R GOLYGYDD.
TRYSOR.
DWR.
MEDDYLIAU AM ANFARWOLDEB.
O'R CEFNDIR.
MAES LLAFUR.
DWY GRONFA.
PRIODAS.
MARWGOFION.
NODION YR EGLWYSI.



Cyf. xxxiv. | Chwef. 1934 | Rhif 2

Argraffwyd gan J. D. Lewis a'i Feibion, Gwasg Gomer, Llandysul.

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. L. Jones, 2, Monumental Terrace, Cefncoed, Merthyr Tydfil.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwyr,—J. D. Lewis a'i Feibion, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

LLYFR GWERTH EI FEDDU.

Y mae ychydig Gopiau o

"GWILYM MARLES"

YNG NGHYFRES Y FIL (Syr O. M. Edwards)

I'W CAEL AR HYN O BRYD.

Pris 1s. 6c. (drwy'r Post, 1s. 8c.)

Anfoner i

SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,' LLANDYSUL.

Ni ellir gwell anrheg i Athro neu Ddisgybl yn yr Ysgol Sul

— na chopi o'r —

Geiriadur Beiblaidd

Dwy Gyfrol, Chwarter Rhwym, Graen Moroco - £2 10s.
Dwy Gyfrol, Lliain Cynfas Cryf - - £2 2s.

I'w gael o SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,' LLANDYSUL.

YR YMOFYNNYDD

. . CYLCHGRAWN MISOL . .
CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUDIR CYMRU

Golygydd : Y Parch. T. L. JONES

CYFROL XXXIV. CHWEFROR, 1934. RHIF 2

" DOS I'TH YSTAFELL—."

" *Yr ynfyd a ddywedodd yn ei galon, Nid oes un Duw.*"—Salm xiv, 1.

* * *

HEB Dduw o ba le y daw dyledswydd ? Heb Dduw nid oes gan unrhyw gyfundrefn o lywodraeth wladol yr un sail ond Grym dall, creulon a gormesol.

* * *

DYN annedwydd iawn neu ddyn drygionus iawn yw'r neb a fedro wadu Duw ar noson serennog, neu ar lan bedd cyfaill, neu ym mhresenoldeb gweithred o hunan-aberth. Yn ddiameu nid oedd yr anffyddiwr cyntaf ond dyn oedd wedi cuddio rhyw anfadwaith oddiwrth bob *dyn* arall ac a geisiai drwy wadu Duw i gael gwared ar yr unig dyst oddiwrth yr hwn ni fedrai ei guddio, ac i fygu llais cydwybod a'i poenai.—MAZZINI.

* * *

Daeth pob gwelliant a diwygiad drwy i rywun i feddwl yn dda yn ei galon, a mynegu ei feddwl mewn gweithred. Mae y byd yn gwawdio y breuddwydiwr, ond y breuddwydiwr sydd yn cyfnewid y byd a'i godi i fynu.—ANAD.

* * *

NID diogel unrhyw rinwedd oni fydd yn frwdfrydig.—J. R. SEELEY.

* * *

DYN yw'r unig greadur fedr chwerthin a wylo, oherwydd efe yw'r unig greadur darewir gan y gwahaniaeth rhwng pethau fel ag y maent ac fel y dylent fod.—HAZLITT.

* * *

O ARGLWYDD ein Duw, mae arnom angen am dy gymorth Di o dan feichiau bywyd. Tydi a'n creaist ni a'n golygon i fynu, i freuddwydio breuddwydion a gweled gweledigaethau. Rhoddaist i ni weledigaeth o'r Da, y Prydferth a'r Gwir. Erfyniwn arnat i'n tywys a'n cynnal yn ein hymdrechion i gyrraedd y delfrydau yma. Cwyd ni i fynu pan y byddwn yn cloffi ac yn cwympo. Nid yn ein nerth ein hunain y gwnawn yr oll a ddymunem, ond dy nerth Di sydd ddigonol. O wybod hyn dyro i ni dangnefedd a gobaith a chalonnau gwrol i frwydro ac i wrthsefyll fel y delom yn y diwedd i'th deyrnas dragwyddol.—Amen.

Nodiadau'r Golygydd.

HELYNT LERPWL.

CLYWSOM achwyn o dro i dro mai annodd i Undodwr ac Undodiaeth gael sôn am danynt mewn papur newydd. Ysgrifennodd golygydd papur Seisnig clodfawr lith godidog ar Dr. Joseph Priestley y llynedd a dywedodd mai offeiriad oedd. ! Pe bai hynny yn fraint ac yn gysur bu i Undodiaid ac Undodiaeth gael lle amlwg yn y newyddion yn ystod y mis diwethaf. Achos y cyffro hyn fu i ddau Undodwr gael pregethu yn Eglwys Gadeiriol Lerpwl ac i'r Esgob David a'r Deon Dwelly gael eu galw i gyfrif am hynny gan yr Arglwydd Hugh Cecil.

Ar adeg cysegru Eglwys Gadeiriol Lerpwl yn 1924 dywedodd y Canon Raven mai nid eglwys blwyfol ar raddfa ogoneddus ddylai yr Eglwys Gadeiriol fod, ond cartref ysbrydol i'r oll o bobl Lerpwl,—canolbwynt undeb o fewn yr hwn y medrai pawb anghofio eu gwahaniaethau er anrhydedd un i'r hwn nid oedd nag Iddew na Groegwr.

Ymddengys i awdurdodau y brif-eglwys yn Lerpwl drefnu eu gwaith yn unol ag ysbryd y gosodiad uchod,—neu, fel y cwyna y *Church Times*, " bu Eglwys Gadeiriol Lerpwl yn ddeddf iddi hi ei hun am flynyddoedd ", a chynhaliwyd llawer gwasanaeth yno gan bobl na pherthynent i Eglwys Loegr.

Yn ystod 1932 pregethwyd yn y brif-eglwys gan Dr. Jacks [deirgwaith ar nosweithiau o'r wythnos] a chan y Parch. Lawrence Redfern, Ullett Road, Lerpwl, [unwaith ar fore Sul].

Protestiodd yr Arglwydd Hugh Cecil yn gyntaf mewn llythyr i'r *Manchester Guardian*, a dywedodd fod " caniatau i un na gredai fod Crist yn Dduw i bregethu yn yr Eglwys yn annheyrngar i Grist, yn anghyfreithlawn ac yn waradwyddus ". O glywed ohono oddiwrth Esgob Lerpwl ei bod yn wir fod dau Undodwr *wedi* pregethu yn y brif-eglwys apeliodd yr Arglwydd Cecil at Archesgob Efrog i alw yr Esgob David a Deon y Brif-eglwys o flaen eu gwell am ganiatau ohonynt " i berson yn dal syniadau hereticaidd oeddent yn anghyson â dysgeidiaeth Eglwys Loegr fel y mynegir hi yn y cyntaf a'r ail a'r bumed o erthyglau yr Eglwys " i bregethu yn yr Eglwys. Mae yr ymdrafodaeth wedi creu cryn gyffro yn yr Eglwys, ond ni wyddis eto beth wna yr Archesgob.

Mae yn amlwg fod yna blaid gref o fewn yr Eglwys sydd mewn cydymdeimlad llwyr â safbwynt eangfrydig Esgob ac awdurdodau Lerpwl, ond mae mor amlwg a hynny mai yr Arglwydd Cecil sydd yn iawn yn ôl llythyren y gyfraith.

Er i bob dyn rhyddfrydig ei feddwl ryfeddu a gofidio oherwydd y culni wna brotest o'r fath yma yn bosibl, eto mae yr Arglwydd Cecil wedi cyflawni gwasanaeth gwerthfawr. Mae wedi galw

sylw mewn modd pendant at anghysondeb Eglwys sydd yn gofyn i'w hoffeiriaid gredu yn synnwyr llythrennol a gramadegol ei deugain erthygl namyn un, tra ar yr un pryd mae yn caniatau i'w harweinwyr a'i meddyliau disgleiriaf fynegu mewn gair a gweithred eu bod ym mhell iawn o safbwynt y crediniwr syml yn llythyren y credoau. Mae gonestrwydd meddyliol yn galw ar yr Eglwys i ail ystyried ei credoau yng ngoleuni canrifoedd o ddadblygiad meddyliol.

I ni fel Undodiaid ni fedr ond daioni ddeilliaw o'r ymdrafodaeth. Rhyfyg fyddai ymlawenhau oherwydd i Gristionogion gweryla a'u gilydd, ond iechyd yw sylweddoli o dro i dro ein bod yn sefyll dros atitiwd tuag at wirionedd crefyddol sydd yn gwbl wahanol i'r eiddo unrhyw enwad arall. Hwyrach mai'r peth gorau fedrai ddigwydd i ni fel enwad fyddai cael ein damnio fel hereticiaid unwaith eto. Dyna ydym yn ddiamau yn ôl llythyren y credoau, a chyhyd ag y glyna ein cyd-Gristionogion wrth y credoau mae i ninnau ein swyddogaeth a'n cenhadaeth. O ennill o bob Cristion ryddid meddwl yn llawn ystyr yr ymadrodd, bydd enwadaeth fel yr adnabuwyd hi ar hyd yr oesau ar ben. Ni wawriodd y dydd hwnnw eto.

* * *

BEIRNIAD LLYM.

Tua mis yn ôl bu y Dean Inge, o gadair y Gymdeithas Glasurol yn traethu ei farn ar ein gwareiddiad ni heddiw. Pe byddai i ymwelydd o blaned arall, ebe'r Deon, daflu golwg dros y byd gorllewinol heddiw, deuai i'r casgliad ein bod wedi colli y ddawn i greu pethau prydferth. Cai ein hymwelydd ei synnu yn fawr gan y ffaith ein bod yn *addoli* mewn iaith yn llawn o gynddaredd gwladgarol llwyth o Fedwiniaid o'r oesoedd pellenig, a sylwai hefyd mai y rhan bwysicaf o'n haddysg yw astudiaeth o lên a barddas y Groegiaid, pobl ddwyreiniol oeddent yn byw tua dwy fil o flynyddoedd yn ôl. Byddai hyn yn argyhoeddi ein sylwedydd nad oes gan ein gwareiddiad enaid sydd yn eiddo iddi hi ei hun.

Ond meddai'r Deon, mae gennym lawer o bethau i'w dysgu eto oddiwrth y Groegiaid. Mae bywyd yn yr oes bresennol yn llawer rhy ddyrys. Yr ydym yn parhau i ychwanegu at yr hyn a dybiwn yn angenrheidiau bywyd. Hoffwn gael popeth wedi ei wneyd drosom—rhyw fath o fywyd a phopeth wrth law o wasgu botwm yw ein delfryd. Y diwedd fydd i ni golli y gallu i gerdded, i ddarllen ac i ysgrifennu. Byddai bywyd symlach lawer yn well ar les ein hiechyd, ein meddyliau a'n cymeriadau. Tuedd gweriniaeth, medd y critig, yw dibrisio dynion meddylgar, ac mae hyn wedi dwyn y papurau newyddion sydd yn feddiannol ar y cylchrediad helaethaf i lawr i lefelau iselaf ffolineb a diffyg chwaeth.

Annodd penderfynnu pa fath fyd yr hoffai y Deon fyw ynddo, ond hawdd yw cytuno ag ef ynglŷn â natur a dylanwad adran helaeth o'r wasg boblogaidd.

Ni fedrir anwybyddu'r ffaith fod yna lawer o agweddau hyll i'n gwareiddiad ni oherwydd iddi ddyfeisio peiriannau i wneyd ei gwaith bryntaf a chaletaf. Ond wrth edmygu bywyd a gwrtaith y Groegiaid dylid cofio y gwneid eu gwaith brwnt a chaled hwy gan *gaethion.*

Ni raid pryderu gormod o feddwl am wasgu botymau ond i ni ymdrechu gwneyd y peiriant yn was i werin gyfan ac nid i'r ychydig, a cheisio addysgu pobl i wneyd y defnydd uchaf o'r rhyddid fyddai yn eiddo iddynt o wneyd dyfeisiadau gwyddor yn llawforwynion i'r lliaws. Addysg foddhaol a digonol wnaiff ddiogelu dyfodol gwareiddiad, ond mynegodd y Deon Inge cyn hyn ei fod yn tybio mai camgymeriad yw addysg rad i bawb !

Trysor.

£100,000—can mil—am Lawysgrif ! Ymddengys y peth yn anghredadwy a direswm. Eto nid yw ond y gwir. Dyna'r pris roddwyd am Lawysgrif ychydig ddyddiau yn ôl i lywodraeth Rwsia gan yr Amgueddfa Brydeinig. Dywed rhai fod y peth yn warth, yn enwedig ar adeg fel hon pan y mae cymaint o alw am arian mewn cyfeiriadau eraill a mwy ymarferol. Ond gadawer i ni sylwi ar y mater yn fanylach. Trysor yw hwn nad oes ei gyffelyb, mor bell ag y gwyddom, mewn bodolaeth. O ran fy hun credaf fod y wlad hon i'w llongyfarch ar ei gwaith yn ei sicrhau a'r llywodraeth ar ei pharodrwydd i gyfrannu hanner y draul. Cynhwysa y Lawysgrif hon y copi cyflawn boreaf o'r Beibl y gwyddom am dano. Nid mewn bwyd a dillad a thai a thir a phethau cyffelyb yn unig y mae golud gwlad yn gynwysedig, ond hefyd mewn trysorau a wnant apelio at y meddwl a'r teimlad. Y mae'r Lawysgrif hon wedi taflu llawer o oleuni newydd eisoes ar gynnwys y Beibl, ac felly hyderaf y gwna rhai o Undodiaid Cymru ddanfon cyfraniadau—gan nad beth eu maint—i'r Amgueddfa Brydeinig tuag at wneud i fyny y swm o £50,000 sydd yn aros i'w gasglu.

Ni wyddis dim gyda sicrwydd am hanes y Lawysgrif hyd tua chanol y ganrif ddiwethaf. Yn ôl yr awdurdodau gwelodd olau dydd gyntaf yn y bedwaredd ganrif. Y mae'r ysgrifen yn glir ac yn ddestlus a mae yn bosibl fod y copi hwn yn un o'r hanner cant y gorchymynwyd gan Cystenin, Ymherawdwr Rhufain, i Eusibius, Esgob Cesarea, eu gwneuthur. Gan nad beth am hynny y mae hanes darganfyddiad y Lawysgrif yn darllen fel rhamant.

Yn y flwyddyn 1844 aeth yr ysgolor Beiblaidd enwog Tischendorf o'r Almaen ar ei hynt i'r Dwyrain i edrych am hen lawysgrifau o'r Ysgrythyrau. Ymhlith mannau eraill ymwelodd â Mynachlog

Sant Catrin wrth droed mynydd Sinai. Yn un o'r ystafelloedd sylwodd ar gawell mawr yn llawn o lawysgrifau memrwn. Hawdd oedd canfod oddiwrth eu lliw a'u cyflwr eu bod yn eithriadol o hên. Gafaelodd mewn nifer o honynt a sylwodd er ei syndod a'i lawenydd fod rhan o'r Beibl yn ysgrifenedig arnynt. Dywedodd y llyfrgellydd wrtho fod llawer o ddefnyddiau cyffelyb wedi eu llosgi eisoes fel ysbwriel diwerth. Amlygodd Tischendorf ormod o ddiddordeb yn ei ddarganfyddiad ac mewn canlyniad ni chafodd ond pump a deugain o ddail i'w dwyn yn ôl gydag ef i'r Almaen. Yn Leipsic y mae rhain hyd heddiw. Breuddwydio am y llawysgrifau eraill oedd Tischendorf o hyd. Gwyddai nad oedd ganddo yn ei feddiant ond blaenffrwyth y cynhaeaf yn unig.

Yn 1859 cyfeiriodd ei gamrau unwaith eto tua mynydd Sinai. Y tro hwn dangoswyd iddo y trysor gwerthfawr sydd erbyn hyn yn cartrefu yn ddiogel yn Llundain. Er mwyn osgoi yr anhawsderau blaenorol llwyddodd i lywodraethu ei deimladau a chafodd ganiatad i gludo y lawysgrif i'w ystafell wely dros y nos. Ni ddaeth meddwl am gysgu yn agos ato. Defnyddiodd bob munud o'r amser gwerthfawr i wneud copi o Epistol Barnabas yr hwn oedd yn gynwysedig yn y Lawysgrif ynghyd â'r ddau Destament. Nid oedd modd cuddio gwerth y trysor oedd ganddynt oddiwrth y mynachod mwyach. Cyn cael meddiant o hono bu raid wrth ymdrafodaeth faith a dyrus. O'r diwedd drwy wasanaeth a chefnogaeth Ymherawdwr Rwsia trosglwyddwyd ef i Tischendorf a chafodd ei gludo yn fuddugoliaethus i St. Petersburg. Yno y bu hyd ychydig ddyddiau yn ôl. Feallai na fedr Rwsia werthfawrogi trysor fel hwn ar hyn o bryd. Y mae sail dros gredu hefyd fod yr awdurdodau yn teimlo y byddai yn fwy diogel ac o well gwasanaeth mewn man mwy canolog fel yr Amgueddfa Brydeinig. Gan nad beth am yr esboniad iawn yno y mae, a gallwn lawenhau er cymaint y draul, fod gennym bellach un o drysorau godidocaf y byd.

O.S.—Adnabyddir y Lawysgrif wrth yr enw " Codex Sinaiticus " gan mai wrth droed Mynydd Sinai y darganfyddwyd hi. Y nesaf at hon o ran amser a gwerth yw y Lawysgrif o'r Beibl a ddug yr enw " Codex Vaticanus " gan mai yn llyfrgell y Vatican yn Rhufain y mae yn cartrefu.

J.P.D.

DWR.

Hynod fel diod yw dŵr,—yn dda yw
I ddyn ym mhob cyflwr ;
Nid gwaeth fydd byd y gweithiwr,
Os llawer gymer y gŵr.

L.W.

Meddyliau am Anfarwoldeb.

Yn ystod y blynyddoedd diweddaf hyn bu cryn gynnydd yn niddordeb pobl mewn ysbrydegaeth. Er nad yw ysbrydegaeth o bosibl, wedi taflu llawer o oleuni newydd ar broblem anfarwoldeb, mae wedi peri i lawer roddi ystyriaeth newydd i'w syniadau ynglŷn â thynged yr enaid.

Y dydd o'r blaen deuthum ar draws crynodeb o erthygl ddiddorol ar " Dynged yr enaid ", ymddangosodd yn yr *Hibbert Journal* dro yn ôl. Awdur yr erthygl yma oedd y Deon W. R. Matthews, o Exeter, ac mae bri y Deon fel athronydd a diwinydd yn gosod cryn werth ar unrhyw ddyfaliadau o'i eiddo.

Hwyrach y byddai yn ddiogel i feddwl fod pob Cristion yn credu mewn anfarwoldeb, ond byddai mor ddiogel a hynny i ddweyd mai ansicr a niwlog yw syniadau y mwyafrif ohonom ynglŷn â'r hyn a olygir yn gywir wrth " anfarwoldeb ".

Dywed y Deon yn yr erthygl dan sylw mai yr hen syniad am yr enaid oedd mai rhywbeth ansylweddol ydyw yn trigo yn y corff ond nid mewn unrhyw ystyr yn rhan o'r corff, ond yn hollol ar wahan oddiwrtho. Ond mae eneideg [*psychology*] wedi taflu gwawd ar y syniad yma, ac o bosibl wedi peri i'r mwyafrif ddeall na fedrir deffinio enaid mewn ffordd mor syml.

Y cwestiwn pwysig yw,—A oes dyfodol i'r profiad personol fwynhawn yn awr. A wna y profiad personol yma barhau ar ôl marwolaeth. Os y gwna, beth fydd yr amgylchiadau o dan ba rai y gallasem dybio y bydd iddo barhau ?

Cyn y medrwn gredu mewn unrhyw fath o anfarwoldeb mae yn amlwg fod yn rhaid i ni gredu yn gyntaf fod i'r meddwl flaenoriaeth ar y corff, neu o leiaf y medr y meddwl fodoli ar wahan i'r byd materol sydd yn wybyddus i ni. Ym mhellach ni fyddai fawr ystyr i'r gobaith am anfarwoldeb ar wahan i'r ffydd fod gwerth cynhenid a thragwyddol i'r pethau a gyfrifir o werth gan ysbryd dyn, megis Daioni, Gwirionedd a Phrydferthwch. Er mai amherffaith ar y gorau yw'r mynegiant o'r *gwerthau* yn y byd yma, ni fedrir gwahanu y gred mewn anfarwoldeb oddiwrth y syniad fod gan y pethau hyn *hawl* i barhau. Byddai tybio i'r gwrthwyneb yn annioddefol.

Cred y Cristion meddai'r Deon, fod Duw yn gariad Sanctaidd, a'i fryd ar *achub* ei blant. Cred y Cristion hefyd yn Adgyfodiad Crist. [Esbonir nad yw credu hyn yn golygu o angenrheidrwydd mewn unrhyw *ffurf* arbennig o adgyfodiad, yn unig credu na orchfygwyd Crist gan farwolaeth a'i fod yn byw dros fyth]. Ar ôl hyn gofynnir,—A ydyw y gred mewn anfarwoldeb yn athrawiaeth Gristionogol. Golygir wrth y gred mewn anfarwoldeb yn y frawddeg yma, y gred fod pob enaid *am ei fod yn enaid* yn anfarwol. Dysgid hyn gan Plato, a thrwy ddisgyblion Plato, daeth yr athraw-

iaeth yn rhan o ddiwinyddiaeth Gristionogol. Ond mae yn bryd i ni gael gwared ar yr etifeddiaeth Blatonaidd yma. Nid oes sôn yn y Testament Newydd am anfarwoldeb yn yr ystyr yma. Nid oes awgrym yn y Testament Newydd ei bod yn amhosibl dinystrio yr enaid [*indestructibility of the soul*].

O ofyn,—Pa fath syniad am anfarwoldeb sydd yn gyson ag athrawiaeth Gristionogol atebir,—"Anfarwoldeb ar delerau" ["*Derived or Conditional Immortality*"].

Rhaid sylweddoli ymhellach mai *adgyfodiad y corff* yw'r athrawiaeth am anfarwoldeb yr enaid sydd yn nodweddiadol o Gristionogaeth. Ni ofynnir i ni dderbyn yr athrawiaeth yma yng ngwisg yr hen gredoau, ond erys yr hyn sydd hanfodol yn y gred yn adgyfodiad y corff y syniad mwyaf rhesymol am fywyd tuhwnt i'r llen. Mae yn llawer mwy annodd nag y bu i gredu fod profiad personol yn rhywbeth fwynheir gan yr enaid tra mewn cysylltiad â'r corff a chredu ar yr un pryd nad oes gysylltiad hanfodol rhwng y profiad hwn â'r corff. Annodd felly yw synied am y profiad personol hwn yn parhau ar ôl marwolaeth heb fod yn gysylltiedig â chorff [o ryw fath].

Mae Paul yn sôn am "gorff ysbrydol". Ceir yma awgrym o athrawiaeth am adgyfodiad y corff fedrir dderbyn heb gael ein gorfodi i gredu fod y corff materol yn adgyfodi. Mae'r syniad yma o gorff ysbrydol yn hollol gyson a dysgeidiaeth gwyddor. Mae gwyddor ddiweddar wedi gwneyd mater mor ansylweddol fel nad oes unrhyw anhawsder i gredu y medr yr enaid yng nghwrs ei fywyd adeiladu iddo ei hun gorff fydd yn gyfrwng priodol i'w fywyd ar ôl ymadael ohono â chnawd materol.

Amhosibl yw cysoni yr athrawiaeth Gristionogol am Dduw a chred mewn cospedigaeth dragwyddol. Ond nid yw gwrthod credu mewn cospedigaeth dragwyddol yn arwain o angenrheidrwydd i gredu fod pob enaid yn anfarwol. Arweinir ni yn hytrach i gredu mai rhywbeth i'w *ennill* yw anfarwoldeb. O barhau i ddewis y drwg mae dyn yn brwydro yn erbyn natur pethau, ac ni fedr hyn ond arwain yn y pen draw i hunan-ddistryw [hunan yma yn golygu yr enaid yn ogystal a'r corff]. Dyma beth a olygir wrth anfarwoldeb ar delerau [*conditional or derived immortality*]. Maentumir y seilir yr athrawiaeth yma ar y syniad hanfodol o natur Duw y cytuna pob Cristion yn ei gylch.

Adgofir y darllenydd mai crynodeb yw'r uchod o syniadau un o feddylwyr disgleiriaf yr Eglwys Wladol heddiw. Cynygir hwy yma fel cymhelliad i feddwl yn onest ar broblem yr hon o bosibl yw y tywyllaf yn y ffydd Gristionogol. Ni ddywedwyd y cwbl ar anfarwoldeb o bell ffordd gan y diwinydd a ddyfynnir, ond o bosibl y bydd ei syniadau o gymaint diddordeb i ddarllenwyr yr YMOFYNNYDD ag y buont i

EFRYDYDD.

O'r Cefndir.

MARI TY'R CAPEL.

HANNER canrif yn ôl yr oedd Mari yn preswylio yn Nhŷ'r Capel, a hi oedd yn gofalu a chadw mewn trefn y pethau a berthynent i'r eglwys. Ei gorchwyl hi hefyd oedd croesawu'r pregethwr, a dadwisgo ei ferlyn, ac yn fynych cynorthwyid hi yn y ffwdan hwn gan ddau neu dri o'r bechgyn cyfagos. 'Roedd ei chalon yn y gwaith a gwnai ei gwaith yn deg a diddig fel un ag awdurdod ganddi.

Un fechan o gorffolaeth oedd hi, dipyn o dan bum troedfedd o daldra, ac nid oedd yn rhyw drwchus iawn ychwaith, dau lygad treiddgar, cyflym ei hamsang ac yr oedd rhyw harmoni rhyfedd rhwng cynheddfau meddyliol Mari â symudiad ei throed. Pan fai'n cerdded yn frysiog ac yn bwrw ei chlocsen yn erbyn y llawr gyda phendantrwydd diysgog, gellid bod yn sicr fod ganddi rhyw newydd cyffrous a phwysig.

Gwisgai gap o'r hên ffasiwn, cuddiai ei chlustiau yn gyfangwbl. 'Roedd ei het yn dwyn delw padell ffrio ac heb ei het nid oedd Mari'n gyflawn. Yr oedd yn berchen ar lawer o arabedd yn ffordd ei hun. Hên ferch weddw oedd hi ond nid teg defnyddio yr ansoddair "hên" oblegid pan oedd hi'n ymylu ar saith deg, yr oedd yn llawn ynni a nwyfiant. Drwg gennyf na allaf roi gwybod ymhle yr oedd pan welodd gyntaf olau dydd. Nid wyf yn feddiannol ar ddim o'i hanes cyn iddi symud i dŷ'r Capel.

Rhaid mynd yn ôl dros ysgwyddau amser i'r cefndir pell i chwilio am gymeriadau difyr, duwiol a da, fel Mari. Cwynir fod arbenigrwydd meddyliol ymron wedi ei golli o'n plith, am ein bod yn byw yn oes y colegau. Dilynnai lwybr dyledswydd yn onest a diysgog, ac yn ôl ein hymddygiad ni yn y cyfnod presennol gellir meddwl ei bod yn or-fanwl gyda phethau bychain. Digwyddai imi gwrdd â hi yma a thraw ymron yn ddyddiol am gyfnod byr. Ei chwedl hi yn ddieithriad oedd "rw'i yn gweyd, bydd yn grwt da". Ymwelais â hi un noson yn ei thŷ, a chyn i mi gael amser i yngan gair, meddai hi "ti sy yna, dere mla'n at y tân, ishte lawr a gad dy fodder". Dechreuodd ar unwaith i wneud achwyniad yn erbyn Sam a Ben, o herwydd eu hymddygiad y Sul o'r blaen pan oeddent yn ei chynorthwyo gyda dadwisgo merlyn y pregethwr. "Yr oeddynt" ebe hi, "yn cnoi a phoeri dybaco, ac mi welais rai gwreichion o'r poeri yn disgyn ar offer ceffyl y pregethwr. Dim rhagor o'u help i fi. Rw' i yn gweyd fod yn rhaid i ni barchu'r pregethwr, y mae ymddygiad o'r fath yn warthus."

Credaf fod syniad Mari yn gywir parthed parchu'r pregethwr. Heb harmoni rhwng y pregethwr a'i eglwys ni ddisgwylir fawr lwyddiant. "Yr oedd Sam prynhawn ddoe," ebe Mari, "ar ben

y goeden onnen sydd draw acw, ac wrth ei fod yn disgyn o'i brig fe safodd un hanner o'i gôt ar ôl a dyna lle mae hi nawr. A neithiwr wedyn ymron gyda'r hwyr fe gwmpodd i'r afon, a fe aeth Cletwr a'i gapan i ffwrdd yn ei chôl i Deifi, ac y mae'n siwr o fod erbyn hyn ar draethau Llandudoch. Rw'i yn gweyd na wn i ddim p'run a'i curyll ynte frithyll y dylai fe fod."

'Roedd Mari yn fanwl iawn gyda rhifo y Suliau y byddai un o aelodau'r Capel yn absennol o'r gwasanaeth. " Nid yw Moses Jones " ebe hi, " wedi bod yn y cwrdd ers pum wythnos, ei esgusawd am hynny yw ei fod yn dioddef gan ddolur y galon, ond yr oedd yn gallu mynd i'r farchnad fisol dydd Mawrth, ac yr oedd yn yr efail ddoe yn pedoli ceffylau. Rw'i yn gweyd ei fod yn rhy ofnadwy o respectacl [respectable] i ddod i'r cwrdd nawr."

Ar un nos Sul yr oedd pregethwr tra enwog yn pregethu yn y Capel, ac yng nghwrs ei bregeth gwnaeth sylwadau mewn perthynas i eiddigedd yr Iddew tuag at yr Iesu—yn ei erlid a'i watwar a moddai eraill. Cafodd y bregeth ganmoliaeth uchel gan y gwrandawyr. Gofynnwyd i Mari roddi ei barn ar y bregeth, ac os ydoedd wedi ei mwynhau. " Dim o gwbwl " ebe hi " fe roddodd y bai i gyd ar yr Iddew. Rw'i yn gweyd na welais i erioed ddau yn cweryla, heb fod peth bai ar bob ochr." Un o articlau credo Mari oedd ei bod i amddiffyn dyn yn ei absenoldeb, ac fel yr edrychwyf fi ar y cwestiwn yr oedd yn lled agos i'w lle o safbwynt crefydd ymarferol.

Nid oedd hi wedi cael llawer o addysg, er hynny, yr oedd yn meddu ar gydbwysedd meddyliol cryf. Nid oedd hi yn talu fawr o sylw i " Athroniaeth trefn iechydwriaeth " nac yn pendroni mewn perthynas i'r " pechod gwreiddiol ". I mi y mae ei gorchymyn,—" bydd yn grwt da " yn cynnwys deg gorchymyn yr ysgrythyr, oblegid pe bawn yn torri un o'r deg ni allwn fod yn grwt da.

Daeth im rhan fwy nag unwaith y fraint o gael gwrando ar rai o brif bregethwyr yr oes hon, yn athronyddu ac athrawiaethu ar y llwybr diogelaf i rodio arno os am fod yn gadwedig, ond dywedaf heb betrusdod, yn ôl fy marn i, fod Mari Tŷ'r Capel wedi symio'r oll a glybum ganddynt, i fyny mewn pedwar gair, " bydd yn grwt da "

" Dyma'r ffordd medd un i'r bywyd,
Amau'n gadarn fydd y llall ;
Ac er chwilio'n daer a diwyd,
Syrthiwn bawb i lawer gwall."

Ond nid oes gwall yng nghyfansoddiad gorchymyn Mari. Y mae hi yn preswylio hwnt i'r llen ers blynyddoedd lawer, ond erys ei ffraethebion a'i gorchymyn ar orielau'r cof. Clywaf y gornant ar ei thaith yn adrodd, yr awel chweus yn y llwyn yn sibrwd a chloch y Llan yn seinio—" bydd yn grwt da ".

Glan Glowon.

Y Maes Llafur.

PARHAD O'R HANES.

Y BRENIN cyntaf fu ar Israel oedd Saul, un o lwyth Benjamin. Byr a helbulus fu ei deyrnasiad ef; cododd anghytundeb rhyngddo â Samuel, a phan y bu farw ychydig obaith oedd gan ei fab Ishbosheth i gadw yr orsedd, oherwydd arwr Israel erbyn hyn oedd Dafydd mab Jesse, a choronwyd Dafydd yn frenin. Rhyfela fu hanes y genedl eto dan deyrnasiad Dafydd. Meddiannwyd Jerusalem, a gwnaethpwyd hi yn brif-ddinas y wlad ac yn ganolbwynt crefyddol y genedl. Dilynwyd Dafydd ar yr orsedd gan ei fab Solomon. Disglaer dros ben y bu teyrnasiad Solomon; adeiladwyd y deml ogoneddus yn Jerusalem a phalasdai gwych ond ar draul creu anfodlonrwydd ymysg rhai o'r llwythau oherwydd y trethi creulon oedd yn angenrheidiol er cadw y rhwysg i fyny. Ar farwolaeth Solomon canlyniad yr anfodlonrwydd fu i ddeg allan o'r deuddeg llwyth wrthod gael eu llywodraethu gan fab Solomon (Rehoboam). O hyn allan yr oedd dwy deyrnas,—Israel, y deyrnas ogleddol (deg llwyth) a Judah teyrnas y dehau. Brenin cyntaf Israel oedd Jeroboam. Bu gelyniaeth barhaus rhwng y ddwy deyrnas a rhyfel ar droion, tra y dioddefai y ddwy yn barhaus oddiwrth elynion o'r tu allan.

Dywedwyd yn gynt mai proffwyd oedd Samuel, a thrwy gydol hanes y genedl o amser Samuel ymlaen chwareuodd y proffwydi ran bwysig. Yr oedd yna dyrfa ohonynt yn amser Dafydd a Solomon, ac ambell un mor gynnar a hynny yn beiddio protestio yn erbyn anghyfiawnder a thrais, ac yn erbyn y ddelw-addoliaeth oedd gymysgedig a chrefydd. Ffynnai delw addoliaeth yn waeth yn y deyrnas ogleddol ac aeth pethau yn wir wael dan deyrnasiad Ahab, pryd y bu agos i broffwydi Baal (Duw y Syriaid) ennill yr holl wlad. Ond Elias, proffwyd y gwir Dduw a orfu yn y diwedd, a bu dylanwad ei olynydd Eliseus yn effeithiol i roddi teulu brenhinol newydd ar yr orsedd. O hyn ymlaen daeth y bobl yn raddol i goleddu syniadau mwy aruchel am Dduw a'i ofynion moesol.

Oddiar eu hymraniad bygythid y ddwy deyrnas yn barhaus gan fyddinoedd yr ymerhodraethau mawr oddi amgylch iddynt, a thra 720 mlynedd cyn Crist goresgynwyd Israel gan yr Assyriaid a chludwyd goreuon ei phobl ymaith i gaethiwed. Llwyddodd teyrnas Judah i gadw ei hannibyniaeth ychydig yn hwy. Yr oes yma oedd oes y proffwydi Amos, Hosea, Micah ac Eseia. Dysgent mai barn Duw oedd buddugoliaeth Assyria ar genedl Israel am eu delw addoliaeth a'i ffyrdd anfoesol. Wedi cwymp teyrnas Israel bu awydd ar rai o arweinwyr Judah i alw ar yr Aifft am gymorth yn erbyn Assyria, ond gwrthwynebid hyn gan y proffwyd Eseia. Tystiai ef fod cymorth Duw yn ddigonol ac fod Jerusalem yn ddiogel. Gorfod i'r Assyriaid ymadael a'r wlad heb orchfygu Jerusalem, ac yn fuan cwympodd ymerhodraeth Assyria ei hun.

Dan ddylanwad dysgeidiaeth y proffwydi ymdrechodd y brenin Hezekiah i buro crefydd y wlad, ond brenin paganaidd oedd ei olynydd, Manasseh. Yn ystod teyrnasiad Josiah, yn y flwyddyn 621 darganfyddwyd yn y Deml lyfr a elwid Llyfr y Gyfraith (rhan o'r llyfr Deuteronomy yn ein Beibl ni oedd y llyfr hwn). O ddyfod i wybod cynnwys y llyfr, a chanfod y gwahaniaeth rhwng ei safonau a safonau y dydd, bu i Josiah greu cryn dipyn o ddiwygiad crefyddol yn y tir.

Yn y blynyddoedd hyn y proffwydai y proffwyd Jeremeia, ac ar waethaf diwygiad Josiah ac yn wyneb erledigaeth daliai Jeremeia fod yn rhaid i Jerusalem ei hun gwympo cyn y delai gwir edifeirwch i'r bobl. Gorthrechwyd Jerusalem gan y Caldeaid yn 597 ac yn 586 daeth y diwedd, a chludwyd y mwyafrif o'r bobl i gaethiwed yn Mabylon.

Yno y buont am tua hanner can mlynedd a'r ychydig oeddent o'r un ysbryd a'r proffwydi yn hiraethu am Jerusalem, a'r proffwyd Eseciel yn dysgu mai nid am bechodau y tadau oedd y dioeddefaint hyn ond am eu pechodau eu hunain.

Pan orchfygwyd y Caldeaid gan y Persiaid, cafodd yr Iddewon ganiatad gan y brenin Cyrus i fyned yn ol i'w gwlad eu hun.

Aeth rhyw gyfran o honynt, ac yn araf, dan gymhelliad y proffwydi Haggai a Secariah, ac yn y diwedd dan arweiniad Ezra a Nehemeia ail adeiladwyd Jerusalem a'r deml.

Hyd tua'r fan yma y dygir hanes cenedl Israel yn yr Hen Destament. Wedi hyn daethant dan lywodraeth Groeg; mwynhawyd tymor byr o annibyniaeth dan y Maccabeaid, ac yn ddiweddaf oll daeth Gwlad Canan yn rhan o Ymherodraeth Rhufain. Felly yr oedd pethau adeg geni Iesu Grist a dechreu y Cyfnod Cristionogol.

NODYN I ATHRAWON.—Amcanwyd cyhoeddi rhestr o ofyniadau ar y maes; fel ag i roddi syniad o'r hyn fedrir ddisgwyl; ond gan nad yw gofod yn caniatau, anfonir y rhestr i bob gweinidog, fel y medro ei rhoddi i bwy bynnag sydd yn gyfrifol am ddysgu y plant.

The General Assembly Centenary Fund.

Tua pymtheg mis yn ôl gyrrwyd cais am 300,000 o sylltau tuag at y Gronfa uchod.

Derbyniwyd y cynllun gyda brwdfrydedd mawr yn ein pwyllgorau! [gwel Ymofynnydd, Tach. 1932]. Sylweddolwyd ein dyledswydd fel Eglwysi tuag at y General Assembly. Y mae tua £4,000 yn cael eu talu fel *Grants* yn flynyddol drwy gyfrwng y *Sustentation Fund*, a thybiaf y bydd tua £400 yn dyfod i'n Heglwysi yng Ngheredigion yn unig y flwyddyn hon.

Yng ngwyneb y ffeithiau uchod, a llawer eraill gellid eu henwi, rhaid cyfaddef ein siomiant mawr yng nghyfanswm y casgliad yn Sir Aberteifi.

Gwnawd cais arbennig i'n Hysgolion Sul, ond dim ond un felly, sef Capelygroes, sydd wedi anfon i mewn.

Yr oedd y casgliadau yn ein Cyfarfodydd Diolchgarwch i fod i'w hanfon am 1932 i'r Gronfa, ond ni wnaed hynny gan lawer o'n Heglwysi. Gwelir oddiwrth y rhestr ganlynol fod £4 10s. oc. yn fyr o gyrraedd £100. Gobeithio y gellir gwneud hyn i fyny os nad llawer mwy.

	£	s.	c.		£	s.	c.
Aberystwyth	5	10	0	Llanbedr [Brondeifi] ..	11	12	0
Alltyblaca	3	1	6	Llandysul [Graig] ..	17	19	0
Caeronnen	2	10	0	Llwynrhydowen	6	9	0
Capelyfadfa	8	14	0	Pantdefaid	16	12	0
Capelybryn	3	12	6	Pant-teg	1	0	0
Capelygroes	5	0	0	Rhydygwin	3	14	0
Eto—yr Ysgol Sul ..	0	8	0	Mrs. Phillips, St. Clears ..	1	1	0
Capelycwm	1	14	0	Mr. David, Wrexham ..	0	2	0
Ciliau Aeron	4	1	0				
Cribyn	2	10	0		£95	10	0

Anfoner y cyfraniadau i mi cyn Chwefror 20fed—DAVID JONES, Dolgerdd, Talgarreg, Llandyssul, Cards.

NODYN I OHEBWYR—Dymunir ar y Gohebwyr caredig sydd yn bwriadu anfon Ysgrifau, i'w cadw o fewn terfynnau tair tudalen. Bydd Ysgrifau byrach na hyn yn dderbyniol hefyd.—Gol.

Cronfa'r Bwrdd Presbyteraidd.

RHESTR O'R TANYSGRIFWYR YNGHYD A'U TANYSGRIFIADAU AM Y TYMOR 1933-4.

	£	s.	c.
Ffrind	0	10	0
Mrs. J. K. Hudson, Bryste..	1	0	0
Mrs. W. R. Morgan, Aberdar	1	1	0
Mr. G. Eyre Evans ..	0	10	0
Y Prifathro J. Park Davies..	0	10	0
Misses Griffiths, Aberdar ..	1	1	0
Mr. S. Lewis, Pontypridd..	0	5	0
Miss Gwyneth Lewis, eto ..	0	5	0
Mrs. Edwards, Caerdydd ..	0	10	0
Y Parch. E. Rosalind Lee ..	3	10	6
Mr. T. Thomas, Llandysul..	1	1	0
Mr. J. B. Willans, Kerry ..	1	0	0
Mr. W. S. Jones ..	1	1	0
Mrs. M. A. Jones, Llanbedr	0	5	0
Y Parch. Lewis Williams ..	0	2	6
Miss M. Marles-Thomas ..	0	5	0
Y Parch. E. O. Jenkins ..	0	10	0
Y Parch. J. D. Jones ..	0	10	0
Mr. M. Ll. Williams, Y.H., Llanybydder	0	10	6
Miss R. E. Jones, Abertawe	1	0	0
Mrs. J. E. Jones, Llandysul	0	7	6
Miss Olwen Jones, Parkmill, Gwyr	0	10	0
Mr. Grindley, Aberystwyth	1	0	0
Y Parch. T. O. Williams ..	0	10	0
Mr. D. Jones, Dolgerdd ..	0	5	0
Mr. Botting, Y.H., Aberdar	1	1	0
Miss M. Thomas, Vrondolau, Ceinewydd	0	5	0
Mr. J. Thomas, Y.H., eto ..	2	2	0
Mrs. Jones, Y Bryn, Llanybydder	1	1	0
Y Parch. D. Evans, Cwmiago	0	10	0

Priodas.

RHAGFYR 30, 1933, yn Eglwys Llanfihangel-Ystrad, gan y Parch. W. H. Morgan, B.A., B.D., Ficer, unwyd mewn glân briodas Mr. DAVID LEWIS JONES, o Lundainfach, â Miss ELLEN LLOYD, unig ferch Mr. Thomas a Mrs. Mary Lloyd, Blaenwern, Llanfihangel-Ystrad. Yn dda bo byd y ddau.

Marwgofion.

RHAGFYR 3, yn 39 ml. oed, wedi cystudd hir, bu farw ANNIE THOMAS, merch Mr. a Mrs. Llewelyn Thomas, 3, Western Road, Pontardawe. Iechyd bratiog a gafodd Annie holl ddyddiau'i hoes, ond yn ei chorff eiddil a bregus fe drigai ysbryd tyner a siriol. Y sirioldeb hwn a enillodd iddi gylch helaeth o gyfeillion. Cafodd gystudd hir, ac fe'i dioddefodd yn ddirwgnach. Claddwyd ei gweddillion y dydd Iau canlynol ym mynwent Gellionnen, y Parchn. J. D. Jones, D. G. Rees a G. Bedford Roberts yn gwasanaethu. Fel petae Angau heb gystuddio digon o'r teulu hwn bu farw yn sydyn frawd i'r uchod ar Ionor 6. Yr oedd HOWELL JOHN THOMAS yn 38 mlwydd oed, ac fel ei chwaer nid oedd ei iechyd yntau ers blynyddoedd bellach yr hyn a ddymunid. Er hynny, ni freuddwydiodd neb fod ei ddiwedd mor agos. Yr oedd gan yr ymadawedig feddwl bywiog. Darllenodd yn helaeth, a dwfn ydoedd ei ddiddordeb ym mhrif bynciau'r dydd. Hebryngwyd ei weddillion i fynwent Gellionnen y dydd Mercher canlynol. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parchn. D. G. Rees ; Mr. Roberts, Salem, Clydach, a G. Bedford Roberts ; yn y Capel ac ar lan y bedd gan y Parchn. D. G. Rees a J. D. Jones. Estynnwn i'r teulu a'r lliaws perthynasau ein cydymdeimlad dyfnaf dan y ddyrnod ddeublyg hon, ac hyderwn yr arweinir hwy at y pren iachaol a blannodd Gras wrth bob dyfroedd chwerwon.

RHAGFYR 17, cyrhaeddodd ein hen gyfaill DAVID JONES, Penpompren, Capel Dewi, ben ei daith yn 86 mlwydd oed. Claddwyd ei weddillion ym mynwent Pantydefaid, Rhagfyr 21. Pregethwyd gan y Gweinidog a gweddiwyd ar lan y bedd gan y Parch. T. O. Williams, M.A. Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf i'w frawd hynaws yn ei unigedd.

RHAGFYR 19, bu farw SARAH JONES, Well Street, Llandysul, yn 68 mlwydd oed—aelod ffyddlon yn eglwys y Graig drwy y blynyddoedd. Claddwyd ym mynwent Eglwys St. Ioan, dydd Gwener, Rhagfyr 22, gan Ficer y plwyf, a gwasanaethwyd yn y tŷ gan Weinidog y Graig.

RHAGFYR 25, bu farw'r Parch. J. ISHMAEL THOMAS, Rheithor Stamford Rivers, swydd Essex, yn 73 oed. Mab ydoedd i'r diweddar David Thomas [Dewi Hefin], Cribin. Bu'n Rheithor y plwyf uchod am 31 o flynyddoedd. Mae chwaer iddo, Miss Thomas, yn byw yng Nghribin, ac yn aelod yn y capel. Brawd iddo yw Mr. David Thomas, [diweddar Arolygydd Ysgolion], Aberystwyth. Y mae iddo ddau frawd arall—James Hefin, prifathro Ysgol y Cyngor Penrhyndeudraeth ac Evan Lloyd, athro yn ysgol Harrow. Claddwyd ym mynwent Stamford Rivers. Derbynied Miss Thomas ein cydymdeimlad mwyaf, yn ei hiraeth.

RHAGFYR 27, FRANCES JONES, Clettwr Vale, Talgarreg yn 55 oed. Nid oedd ei hiechyd yn dda ers rhai misoedd, ond hyd y diwedd bron daliodd ati i godi a chyflawni gwaith y cartref. Rhyw ddau ddiwrnod y bu'n gorwedd ac i'r ardal yr oedd ei marwolaeth yn bur annisgwyliadwy. Teimlir chwithdod cyffredinol ar ei hol ; yr oedd yna rywbeth ynddi at wneud a chadw cyfeillion a fedrai neb fynd yn ffrind iddi heb fynd yn ffrind iawn. Yr oedd yn un o ferched rhagorol yr ardal. Bu'n dyner a gofalus rhyfeddol o'i mam yn ei henaint ac wedi ei cholli hi ymegniai i gadw cartref cysurus i'w dau frawd. Nid oedd dim yn ormod ganddi i'w wneud drostynt hwy ; yn wir bywyd o hunanaberth oedd ei bywyd drwyddo o ddydd i ddydd dyna wnai, byw i eraill. Yr oedd yn un o wir ffyddloniaid yr achos yng Nghapelyfadfa. Carai'r lle a'r achos ac fe gai unrhyw beth ag a fyddai er lles i'r achos ei gorau hi. Yr oedd y gangen leol o Urdd y Benywod yn agos iawn at ei chalon a loes i'w hyspryd fyddai gorfod colli cyfarfod oherwydd anwyd neu rywbeth arall. Gwyddom ei bod yn annwyl gan bawb o'i chyd-aelodau'n y Bwlch, ac yn wir yn yr holl ardal. "Yr hyn a allodd hon hi a'i gwnaeth". Claddwyd dydd Calan yng Nghapelyfadfa pryd y gwasanaethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins, H. Ponsford [E], Dewi J. Jones, a J. Marles Thomas, M.A. Yr oedd yn angladd lluosog, a gwelwyd dagrau ar lawer grudd heblaw eiddo ei phobl ei hun. Hyderwn y câ y chwaer a'r ddau frawd gysgod dan aden yr Hollalluog.

RHAGFYR 29, bu farw yn Vrondolay, Ceinewydd, JOHN THOMAS, Y.H., gynt Uchel-sirydd Ceredigion, yn 72 mlwydd oed. 'Roedd Mr. Thomas yn un o'r aelodau henaf ym Mhantydefaid ac yn Undodwr selog drwy ei oes. Ar ei wely angau cofiodd am ein hachos a thalodd hanner y ddyled ar y Perlau Moliant. Gweinyddwyd arno yn ofalus ac yn gariadus drwy y blynyddoedd diwethaf gan ei nith, Miss Thomas, a dymunwn estyn ein cydymdeimlad iddi yn ei galar. Claddwyd ym Mhantydefaid Ionawr 2, ym mhresenoldeb tyrfa fawr. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. E. O. Jenkins, yn y Capel gan y Parch. T. O. Williams, M.A. a'r Gweinidog, ac ar lan y bedd gan y Parch. Lewis Williams.

"God of Love, in stillness dwelling,
Lead me to my journey's end."

TRIST iawn yw cofnodi am farwolaeth dwy chwaer annwyl o'r un teulu, a hynny oddifewn tair wythnos i'w gilydd. Rhagfyr 28ain yn 13 oed bu farw

HANNAH MARGARETTA JENKINS, ac ar y 13eg o Ionawr SARAH JANE JENKINS yn 18 oed—merched William a Jane Jenkins, Tynrhos, Llanwennog. Ni fu y cyntaf yn glaf ond am ychydig wythnosau tra yr oedd Sarah Jane wedi bod yn wael am dros ddwy flynedd, a threuliodd yr wythnosau diwethaf o'i hoes yn Ysbyty Tregaron lle y bu farw. Daearwyd eu gweddillion ym mynwent Capel-y-Bryn, a gwasanaethwyd yn yr angladdau gan y gweinidog, y Parch. S. E. Bowen. Y mae cymdogaeth gyfan mewn cydymdeimlad dwys â'r teulu parchus yn ei galar.

IONAWR 2, DANIEL EVANS, Cilgwyn-uchaf, Llangybi, yn 70 mlwydd oed. Gwan oedd ei iechyd ers llawer o flynyddau, ond daeth ei ddiwedd yn ddisymwth, ac ni fu yn wael ond am ychydig oriau. Treuliodd fywyd gwasanaethgar iawn. Meddai wybodaeth fawr am glefydau anifeiliaid, ac yr oedd galwad mynych o bell ac agos am ei wasanaeth fel meddyg anifeiliaid. Yr oedd yn gerddor gwych, a bu yn llwyddiannus iawn fel arweinydd côr mewn Eisteddfodau. Peth arall a'i dyrchafodd i enwogrwydd oedd ei ddeheurwydd mewn gwaith llaw, a bu yn beirniadu llawgelf mewn llawer o Eisteddfodau. Yr oedd yn nodedig am ei addfwynder a'i hynawsedd. Ni ddaeth gair garw erioed o'i enau, ac ni welwyd mo'i dymer wedi ei chyffroi. Cafodd ei ddysgu yn gynnar gan ei fam, yr hon oedd yn chwaer i'r diweddar Barch John Davies, Alltyblaca, i addoli Duw yn Ei gysegr, ac er cymaint y pellder oedd ganddo i'r gwasanaeth ar y Sul yn eglwys Rhydygwin, parhaodd yn ffyddlon gyda'r achos yno hyd y diwedd. Claddwyd y Gwener canlynol ym mynwent Capelygroes. Pregethwyd gan y Parch. Lewis Williams, Rhydygwin, a chymerwyd rhan gan y Parchn. Dewi Jones, Capelygroes ; David Jones, Maesffynnon, Llangybi, a J. T. Lloyd, B.A., Ebenezer, Llangybi. I amlygu parch pobl ei ardal iddo canodd côr o Langybi ar lan ei fedd yr anthem, "Dyddiau dyn sydd fel glaswelltyn". Gadawodd ddau frawd, dwy chwaer, a neiaint, ac amryw o berthynasau eraill mewn galar dwys.

IONOR 8, JANE WILLIAMS, Glanyrafon, Llanbedr, yn 66 mlwydd oed. Cafodd ergyd o'r parlys, a bu farw ymhen ychydig oriau. Benyw dawel ydoedd, ond oedd gan bawb a'i hadwaenai barch mawr iddi. Gweithiodd yn galed drwy ei hoes. Bu yn ofalus iawn o'i chartref, ac yn fam dda a charedig i'w phlant. Siaradai yn barchus am bawb, a charai ei chapel a'i holl galon. Anfynych iawn y byddai ei sedd yn wâg ar y Sul, a pharod ydoedd bob amser i wasanaethu yn ôl ei gallu. Gadawodd ddwy ferch, mab, chwaer a llu o berthynasau eraill mewn hiraeth o'i cholli. Claddwyd y Gwener canlynol ym mynwent Capelygroes. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parchn. David Evans, S. E. Bowen, a'r Parch. Mr. Jones, Ciwrad, Llanbedr ; yn y capel gan y Parch. D. J. Jones ac ar lan y bedd gan y Parch. T. O. Williams, M.A.

IONOR 13, yn 82 mlwydd oed, bu farw MARY JONES, Tycapel, Caeronnen, gynt ond bellach ers dwy flynedd gyda'i merch a'i mab ynghyfraith ym Mharc-y-rhos, Pencarreg. Bu'n gystuddiol am ddwy neu dair blynedd ac ni fedrai ar y diwedd symud na llaw na throed. Dioddefodd lawer yn amyneddgar ac yn ffyddiog. Benyw dawel, garedig a hirben ydoedd, a gofalodd am Gaeronnen am ugain mlynedd. Weithian y mae wedi dychwelyd i huno yn naear ei fynwent. Gadawodd briod oedrannus, merch a mab a pherthynasau eraill i alaru ar ei hôl. Claddwyd hi yng Nghaeronnen, y gweinidog—y Parch. T. O. Williams, M.A., yn gwasanaethu gyda chynorthwy y Parch. D. Williams gynt o Ffaldybrenin.

Nodion yr Eglwysi.

STUDENTS' FUND.—Mae cyfraniadau yr eglwysi tuag at y Gronfa uchod yn araf iawn yn dyfod i mewn y flwyddyn hon, ac y mae arnaf angen arian yn uniongyrchol, fel y medraf dalu £24 sydd yn ddyledus fel *college fees* yn awr.—E. R. Lee [*Trysorydd*].

Y Parch. ALFRED HALL, M.A.—Carwn wneud yn hysbys i Undodiaid Ceredigion y bydd y Parch. Alfred Hall, Llywydd y Gymdeithasfa Gyffredinol, yn talu ymweliad â'r Sir, Sul, Mawrth 18. Bydd yn pregethu'n Llwynrhydowen am 2 o'r gloch, er i bobl Llandysul, Pantydefaid, Llwynrhydowen a Chapelyfadfa gael cyfle i'w groesawu a'i glywed, ac fe draddodir anerchiad ganddo yn yr hwyr [am 5.30] yn y Rehearsal a gynhelir yng Nghapelygroes. Hyderwn y gwna llu mawr fanteisio ar y cyfle yma i gael gweld a chlywed Llywydd y Gymdeithasfa.—E. O. Jenkins.

ALLTYBLACA.—Unwaith eto gwnaeth Urdd y Benywod y lle wasanaeth hyfryd i'r Ysgol Sul drwy roddi iddynt " Christmas Tree Party ". Cynhaliwyd hwn ar yr 28ain o Ragfyr pryd y daeth rhyw drigain a deg o blant ac aelodau'r gynulleidfa ynghyd i gyfranogi o'r wledd. Llywyddwyd gan Mrs. S. E. Bowen a derbyniodd pob plentyn rodd oddiar y goeden. Cafwyd nifer o ganeuon ac adroddiadau gan y plant, a threuliwyd peth amser difyrrus gyda chwaraeon. Gwobrwyodd Mrs. Jones, Y Bryn, â llyfrau, y plant oedd wedi cadw'r Ysgol yn ddi-fwlch yn ystod y flwyddyn a'r rhai a'i haeddodd oedd Nancy Evans, Eunice a Mally Evans a Mena Williams. Diolchwyd yn gynnes i Mrs. Jones am ei charedigrwydd ac hefyd i Mrs. Williams, Penralltnewydd am y goeden a Mrs. Lewis, Penybont, am fasgedaid o ddanteithion.

BRONDEIFI A CHAERONNEN.—Yn ystod Gwyliau'r Nadolig cawsom ym Mrondeifi a Chaeronnen de a Xmas Tree, ynghyd â Chyngerdd diddorol a rhannwyd gwobrau i'r plant am gadw'r Ysgol Sul. Drannoeth i'r Nadolig chwaraeodd Cwmniau Drama Brondeifi bedair drama fer, a chafwyd hwyl neilltuol a chynulleidfa lawn. Er dathlu y llwyddiant cawd *Social Evening* yn y festri ymhen ychydig ddyddiau, a daeth holl aelodau'r pedwar cwmni at ei gilydd i fwynhau eu hunain, ond gydag amcan arall hefyd. Yr oent am ddiolch i'w gweinidog am eu helpu a chyflwynasant *Gold Mounted Fountain Pen* fel teyrnged o barch a diolch. Y mae Urdd y Benywod mor weithgar fel y cymerai rifyn i groniclo pob demonstration a phapur a chompetition. Digon yw dweyd eu bod yn gweithio'n hwylus. Nid digon y dramau, rhaid gan y do ieuanc, ac y maent yn ieuanc yma hyd eu bedd, rannu y gynulleidfa yn dri thŷ ar gynllun yr ysgol sir er cynnal eisteddfod. Ni bydd Castellnedd ynddi o gymharu â Thynrhewl, Tyteifi a Thy'n parc yn ymgodymu am y *shield*. Ni chlywir dim ond am ganu ac adrodd a barddoni, a'r awen a'r gân yn galw bron ymhob tŷ. O leiaf fe'n dihuna i weithio dros y capel gan ein anghofio ein hunain.

CAPELYGROES.—Mawr a fu yr achwyn bod angen llusern tuallan i'r Capel. Yn ddiweddar cafwyd hi gan Mr. David Davies, Undergrove. Ond rhaid wrth bost i'w dal i fyny, a chafwyd hwnnw hefyd gan Mr. Evan Thomas, Bolahaul. Gwerthfawrogir yn fawr y rhoddion hyn, a byddant mwyach yn goffadwriaeth amdanynt, ac fel prawf o'i cariad tuag at yr achos yng Nghapelygroes. Derbynied y ddau ein diolchgarwch gwresocaf. Ar y 7fed o Ionor cafodd plant yr Ysgol Sul Christmas Tree. Peth newydd hollol yn hanes y capel oedd hwn. Daeth nifer dda yno, a chafwyd noson hapus iawn. Bu llawer o'r plant yn adrodd a chanu. Cafodd bob plentyn perthynol i'r capel rodd oddiar y goeden gan *Father Christmas* am y noson—Mr. Eilir Evans, Beili. Ceir ei thebig eto ond i'r plant fod yn ffyddlon i'r Ysgol Sul. Diolchwn yn gynnes i'r sawl a ddewisodd y rhoddion.

BWLCHYFADFA.—Cafwyd prynhawn llawen yma Mercher, Ionawr 3, pryd y cyflwynwyd Testamentau a gwobrwyon oddiar goeden addurnedig i blant yr Ysgol Sul. Trefnwyd yr oll gan aelodau Urdd y Benywod a theimlwn yn wir ddiolchgar iddynt am eu haelioni a'u cefnogaeth i'r Ysgol Sul. Cymerwyd rhan y Tad Nadolig gan y ffyddlon J. R. Thomas ac arweiniwyd y plant mewn chwaraeon difyr gan Mr. J. Marles Thomas, M.A. Yn ychwanegol cafwyd cwpaned bach melys iawn o De cyn ymadael.

CAPEL-Y-BRYN.—Ar y 6ed o Ragfyr cafwyd Darlith gan y Parch. J. Dyfnallt Owen, Caerfyrddin, ar " Y Becca ", ac fe lwyddodd mewn ffordd ddiddorol iawn i fodloni'r gynulleidfa luosog a darluniau byw o'r mudiad a'r cyfnod. Cadeiriwyd gan yr Henadur Josiah Jones, Y.H. yn ei ffordd arferol dda, a bu ei gyfraniad haelionnus yn gynhorthwy mawr i sicrhau elw sylweddol i'r achos.

GELLIONNEN A'R GRAIG, TREBANOS.—Ar Ragfyr 6 cyfarfu'r Cylch Efrydu dan nawdd Cymdeithas y Bobl Ieuainc. Maes y cylch ydyw " Cref-yddau'r Byd ". Testun yr ymgom y tro hwn ydoedd " Mwhametaniaeth ". Cyferfydd y cylch yn fisol, a'r gweinidog yn arwain.

Ar Ragfyr 7 rhoddwyd i ni gyngerdd rhagorol gan aelodau o'r *Mond Orchestral Society*, y cyfaill, Mr. Marles Williams yn arwain. Da ydyw gweld y mab yn cyfranogi o ddiddordeb ei dad. Y mae argraff Mr. W. Williams yn aros ar ganu'r gynulleidfa, ac edrychwn ymlaen at ei weld yn arwain y Gymanfa Ganu yma ar Lun y Pasc. Llywyddwyd yn y gyngerdd gan Mr. D. W. John, Y.H., a rhoddwyd yr elw tuag at adgyweiriadau Gellionnen.

Ar Ragfyr 13 bu parti o'n pobl ieuainc yn gyfrifol am gyngerdd yn Hebron, Capel yr Annibynwyr, Clydach. Da ydyw gweld yr enwadau'n cynorthwyo a chyfeillachu â'i gilydd fel hyn.

Prynhawn y Nadolig derbyniodd plant yr Ysgol Sul deganau oddiar y Goeden Nadolig, ac yn yr hwyr cynhaliwyd cyngerdd fel arfer. Darparwyd rhaglen ardderchog, a llywyddwyd gan y Parch. D. G. Rees.

Nos Galan dathlodd Cyngrair y Gwragedd ddyfod y flwyddyn newydd mewn sosial. Cafwyd amser hwylus dros ben.

Ar Ionor 17, dan nawdd Cymdeithas y Bobl Ieuainc, traddodwyd Darlith gan Mrs. Leonora Davies, Y.H., Ystalyfera. Rhoddodd y darlithydd i ni gipdrem ar fywyd Rwsia a hanes ei thaith i'r wlad honno.

PANTYDEFAID.—Yn ystod wythnos y Nadolig cafodd plant yr Ysgol Sul *Christmas Tree* a thê hyfryd gan aelodau Urdd y Benywod dan arweinyddiaeth y Llywydd, Mrs. Davies, Vaerdre-fach. Anrhegwyd pob un o'r plant â rhodd werthfawr oddiar y goeden. Yna cafwyd cyngerdd difyrus a blasus gan y plant, a " charwr y plant ", Mr. David Jenkins, yn y gadair.

Y GRAIG, LLANDYSUL.—Mae Dydd Calan yn ddydd mawr yng nghapel ac ysgol y Graig bob amser. Felly y bu hi eleni eto. Cafwyd tê ardderchog yn y prynhawn, rhodd haelionus Mrs. Timothy Jones, Abertawe, un o blant anwylaf y Graig. Drwg gennym na fu Mrs. Jones yn alluog i fod yn bresennol. Yn ei habsenoldeb siaradwyd yn uchel am ei gwerth a'i charedigrwydd. Yn yr hwyr yn y Tyssul Hall, a Mr. Penry Lewis, yn Gadeirydd doeth a dethau, cynhaliwyd y Gyngerdd flynyddol pan y perfformiwyd dwy ddrama, un yn Saesneg ac un yn Gymraeg—gan gwmni yr Ysgol Sul dan arweiniad y Gweinidog. Datganwyd yn hyfryd hefyd gan Miss Winnie Price Jones [enillydd yr Eisteddfod Gened-laethol], wyres Mr. Richards, Ardmore, arweinydd y gân yn y Graig. Gwnawd elw o £26 o'r cyngerdd.

Argraffwyd gan J. D. Lewis a'i Feibion, Gwasg Gomer, Llandysul.

FOUR GOOD BOOKS.

The Unitarian Heritage.
(The most complete history of the Unitarian Movement) by Earl Morse Wilbur. ... ... **7/6** or by Post **8/-.**

Judaism in the New Testament Period.
By R. Travers Herford, B.A. ... **4/6** or by Post **4/10.**

The King who was Thirsty.
(Thirty-four Talks to Girls and Boys), by Bertram Lister, M.A. **2/6** or by Post **2/9.**

Be Comforted.
An Anthology of consolation for those in sorrow. Edited by W. E. George, M.A. ... ... **1/6** or by Post **1/8.**

THE LINDSEY PRESS, ESSEX HALL BOOKROOM,
5, Essex Street, Strand, London, W.C. 2.

OS YDYCH AM RODDI ANRHEG AM FFYDDLONDEB I'R YSGOL SUL A FYDDO YN DDERBYNIOL

—RHOWCH GOPI O'R—

'PERLAU MOLIANT'

ARGRAFFIAD NEWYDD.

ARGRAFFIAD SOLFFA.

	s.	c.
Rhwymiad French Morocco (India Paper) Ymylon Aur ...	7	0
Lledr ... ... eto ...	5	6
Lledr, ochrau Llian ... ... eto ...	4	6

ARGRAFFIAD HEN NODIANT.

	s.	c.
Lledr, Ymylon Aur	7	6
Rhwymiad Arbennig, eto	15	0

Anfoner pob Archebion gyda Blaendal i—

Swyddfa'r 'Ymofynnydd,' Llandysul.

CECIL JONES

F.B.O.A., F.S.M.C., F.I.O.

Qualified Ophthalmic Optician, Jeweller and Silversmith

MY CONSULTING ROOM at the address below is fully equipped with the very latest appliances for the testing of eyes, and I am fully qualified to carry out this work in the most efficient and satisfactory manner possible. . . . . .

On the JEWELLERY and SILVERSMITH side of my business, I carry an up-to-date stock of WATCHES, CLOCKS, BAROMETERS, SPORTING TROPHIES, etc., all of which are offered at competitive prices. . . . . .

REPAIRS are effected on the premises, and in every department entire satisfaction is guaranteed. . . . . .

31, GREAT DARKGATE ST. ABERYSTWYTH

TELEPHONE No. 209.